


Adroddiad Arolygu ar gyfer Practis Deintyddol Cyffredinol (Lle Rhoddwyd Rhybudd)

Practis Deintyddol Johnstown,
Wreccsam

Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi
Cadwaladr

Dyddiad yr arolygiad: 19 Mai 2026

Dyddiad cyhoeddi: 19 Awst 2026



Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd amgen ar gais. Bydd oedi byr wrth i ieithoedd a fformatau amgen gael eu cynhyrchu pan ofynnir amdanynt i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth.

Bydd copi o bob adroddiad, pan gaiff ei gyhoeddi, ar gael ar ein [gwefan](#) neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:

Rheolwr Cyfathrebu
Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Llywodraeth Cymru
Parc Busnes Rhyd-y-car
Merthyr Tudful
CF48 1UZ

Neu:

Ffôn: 0300 062 8163
E-bost: agic@llyw.cymru
Gwefan: www.agic.org.uk

ISBN Digidol 978-1-80853-182-8

© Hawlfraint y Goron 2026



Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) yw rheoleiddiwr ac arolygiaeth annibynnol gofal iechyd yng Nghymru

Ein Diben

Rydym yn gwirio diogelwch ac ansawdd gofal iechyd ledled Cymru.

Ein Gwerthoedd

Rydym yn rhoi pobl wrth wraidd yr hyn a wnawn.

Rydym yn:

Annibynnol – rydym yn ddiuedd, yn penderfynu pa waith rydym yn ei wneud a lle rydym yn ei wneud.

Gwrthrychol – rydym yn rhesymol ac yn deg ac yn gweithredu ar sail tystiolaeth.

Pendant – rydym yn gwneud dyfarniadau clir ac yn cymryd camau i wella safonau gwael ac amlygu'r arferion da rydym yn dod ar eu traws.

Cynhwysol – rydym yn gwerthfawrogi ac yn annog cydraddoldeb ac amrywiaeth drwy ein gwaith.

Cymesur – rydym yn ystwyth ac yn gwneud ein gwaith lle mae ei angen fwyaf.

Ein Gweledigaeth

Dyfodol lle mae gofal iechyd yng Nghymru yn ddiogel, yn effeithiol ac o ansawdd uchel i bawb.

Ein Blaenoriaethau

Rhoi Pobl yn Gyntaf – Byddwn yn canolbwyntio ar y risgiau mwyaf y mae pobl a chymunedau yn eu hwynebu wrth iddynt ddefnyddio gwasanaethau gofal iechyd nawr ac yn y dyfodol.

Dysgu a Gweithio Gyda'n Gilydd – Byddwn yn cydweithio â phartneriaid er mwyn rhannu gwersi a ddysgwyd ac ysgogi gwelliannau parhaus.

Buddsoddi yn Ein Pobl – Byddwn yn sicrhau bod ein pobl yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi, eu gwerthfawrogi a'u grymuso.

Cymryd Camau sydd o Bwys – Byddwn yn cymryd camau i wella ansawdd a diogelwch gofal iechyd ar gyfer dyfodol Cymru.



Cynnwys

1. Yr hyn a wnaethom	5
2. Crynodeb o'r arolygiad	6
3. Yr hyn a nodwyd gennym.....	9
Ansawdd Profiad y Claf	9
Darparu Gofal Diogel ac Effeithiol	12
Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth.....	17
4. Y camau nesaf.....	20
Atodiad A – Crynodeb o bryderon a ddatryswyd yn ystod yr arolygiad	21
Atodiad B – Cynllun gwella ar unwaith	22
Atodiad C – Cynllun gwella	24



1. Yr hyn a wnaethom

Ceir manylion llawn am y ffordd rydym yn arolygu'r GIG ac yn rheoleiddio darparwyr gofal iechyd annibynnol yng Nghymru ar ein [gwefan](#).

Cwblhaodd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) arolygiad lle rhoddwyd rhybudd o Bractis Deintyddol Johnstown, Wrecsam, Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr ar 19 Mai 2026.

Roedd ein tîm ar gyfer yr arolygiad yn cynnwys un arolygydd gofal iechyd AGIC ac un adolygydd cymheiriaid clinigol.

Yn ystod yr arolygiad, gwnaethom wahodd cleifion neu eu gofalwyr i gwblhau holiadur er mwyn dweud wrthym am eu profiad o ddefnyddio'r gwasanaeth. Gwnaethom hefyd wahodd y staff i gwblhau holiadur er mwyn rhoi eu barn ar weithio i'r gwasanaeth i ni. Cwblhawyd cyfanswm o ddau holiadur gan gleifion neu eu gofalwyr a chwblhawyd tri gan aelodau o'r staff. Mae'r adborth a rhai o'r sylwadau a gawsom yn ymddangos yn yr adroddiad.

Lle bo dyfyniadau yn y cyhoeddiad hwn, mae'n bosibl eu bod wedi cael eu cyfieithu o'u hiaith wreiddiol.

Noder bod canfyddiadau'r arolygiad yn ymwneud â'r adeg y cynhaliwyd yr arolygiad.

2. Crynodeb o'r arolygiad

Ansawdd Profiad y Claf

Crynodeb cyffredinol:

Ar y cyfan, roeddem o'r farn bod Practis Deintyddol Johnstown yn darparu gofal mewn amgylchedd cefnogol a pharchus, a nododd y cleifion brofiadau cadarnhaol. Roedd yr adborth gan gleifion yn gyson dda iawn, a dywedwyd bod y staff yn garedig, yn barchus ac yn trin pobl ag urddas.

Roedd y practis yn lân yr olwg, ac roedd trefniadau priodol ar waith ar gyfer diogelu, paratoi ar gyfer argyfyngau, a chefnogi'r staff. Ar y cyfan, roedd y cofnodion clinigol o safon dda.

Fodd bynnag, nododd yr arolygiad nifer o feysydd i'w gwella, yn enwedig mewn perthynas ag agweddau ar yr amgylchedd a llywodraethu. Er bod gwaith i adnewyddu'r practis wedi'i gynllunio, roedd ôl traul mewn rhai ardaloedd o'r safle a byddai'n fuddiol mynd ati i'w gwella. Gwnaethom hefyd nodi peryglon amgylcheddol a pheryglon baglu, ynghyd â phryderon yn ymwneud â thrin a gwaredu offer miniog a symud offer wedi'i halogi. At hynny, roedd rhai cyfyngiadau o ran cynnal preifatrwydd a chyfrinachedd cleifion ar y safle.

Roedd angen gwneud gwelliannau pellach i wella cysondeb wrth gadw cofnodion clinigol ac i sicrhau bod y cofnodion yn adlewyrchu anghenion y claf yn llawn lle y bo'n briodol.

Yn ystod yr arolygiad, nodwyd pryder yn ymwneud â darparu gwybodaeth i gleifion wrth roi gwrthfotigau, ac ymdriniwyd â'r pryder hwn ar y pryd.

Gwnaethom awgrymu'r gwelliannau canlynol i gefnogi gofal cleifion:

- Parhau â'r gwaith adnewyddu a gynlluniwyd i wella cyflwr yr ardaloedd clinigol a'r ardaloedd dihalogi
- Mynd i'r afael â'r peryglon amgylcheddol a'r peryglon baglu ar y safle
- Sicrhau bod systemau diogel ar waith ar gyfer trin a gwaredu offer miniog a symud offer wedi'i halogi
- Cryfhau'r broses o gadw cofnodion clinigol, gan gynnwys cofnodi archwiliadau pelydr-X a gwybodaeth am gleifion yn gyson lle y bo'n briodol.
- Adolygu'r cynllun a'r arferion gwaith i gefnogi preifatrwydd cleifion a lleihau'r risgiau i'r staff a chleifion

Dyma beth roedd y gwasanaeth yn ei wneud yn dda:

- Rhoddodd y cleifion adborth cadarnhaol iawn am y gwasanaeth, gan nodi'n gyson fod y gofal yn dda iawn

Darparu Gofal Diogel ac Effeithiol

Crynodeb cyffredinol:

Roeddem o'r farn bod Practis Deintyddol Johnstown, ar y cyfan, yn cydymffurfio â'r rheoliadau perthnasol sy'n gysylltiedig ag iechyd, diogelwch a llesiant staff a chleifion. Roedd y tîm o staff yn gweithredu mewn ffordd sy'n canolbwyntio ar y claf, ac roeddent yn wybodus, yn broffesiynol ac yn gallu cael gafael ar ganllawiau priodol pan fo angen.

Roedd trefniadau priodol ar waith ar gyfer atal a rheoli heintiau, diogelu, paratoi ar gyfer argyfyngau, a hyfforddi staff. Ar y cyfan, roedd y cofnodion clinigol yn cael eu cadw'n dda, gan ddangos bod gofal yn cael ei gynllunio a'i ddarparu i gefnogi diogelwch a llesiant cleifion.

Fodd bynnag, nododd yr arolygiad feysydd lle roedd angen gwneud gwelliannau i gryfhau'r trefniadau o ran diogelwch a llywodraethu. Roedd y rhain yn cynnwys yr arferion ar gyfer rheoli offer miniog yn ddiogel, trin a symud offer wedi'i halogi, ac anghysondebau wrth gadw cofnodion clinigol, gan gynnwys archwiliadau pelydr-X a dogfennaeth ategol.

Rydym yn argymhell y gall y gwasanaeth wella'r canlynol:

- Sicrhau bod offer miniog yn cael ei waredu ar unwaith ar ôl ei ddefnyddio er mwyn lleihau'r risg o anaf i staff a chleifion
- Sicrhau bod systemau priodol ar waith ar gyfer trin a symud offer wedi'i halogi yn ddiogel, er mwyn lleihau'r risg o groes-halogi.
- Gwella cysondeb wrth gadw cofnodion clinigol, gan gynnwys cofnodi archwiliadau pelydrau-X, er mwyn helpu i wneud penderfyniadau clinigol effeithiol a sicrhau parhad gofal
- Sicrhau bod y ddogfennaeth diogelu rhag ymbelydredd yn gyflawn ac yn gyfredol er mwyn helpu i sicrhau bod y cyfarpar pelydr-X yn cael ei ddefnyddio'n ddiogel

Dyma beth roedd y gwasanaeth yn ei wneud yn dda:

- Dangosodd y staff wybodaeth a dealltwriaeth dda o arferion gweithio diogel

Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth

Crynodeb cyffredinol:

Roeddem o'r farn bod Practis Deintyddol Johnstown yn cael ei arwain yn dda, gyda llinellau atebolrwydd clir a diwylliant tîm cadarnhaol. Roedd y staff yn cydweithio'n effeithiol, ac yn dangos ymrwymiad clir i ddarparu gofal o safon uchel. Roedd yr adborth gan y staff yn gadarnhaol, a nododd y rhai a gwblhaodd holiadur eu bod yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi, eu bod yn cael eu cynnwys wrth wneud penderfyniadau, a'u bod yn hyderus i godi awgrymiadau.

Roedd trefniadau priodol ar waith ar gyfer recriwtio staff, hyfforddi, gwerthuso a llywodraethu gwybodaeth. Roedd ffeiliau'r staff yn cael eu cynnal yn dda ar y cyfan, ac roedd gwiriadau cyn cyflogi addas wedi'u cwblhau.

Fodd bynnag, roedd angen gwneud gwelliannau i gryfhau'r trefniadau llywodraethu. Roedd y rhain yn cynnwys sicrhau bod cofnodion iechyd y staff yn gyflawn, yn enwedig mewn perthynas â statws imiwneiddio rhag Hepatitis B, a bod systemau effeithiol ar waith ar gyfer adolygu a rheoli polisïau a gweithdrefnau'n barhaus er mwyn sicrhau eu bod yn gyfredol ac yn adlewyrchu trefniadau'r practis.

Rydym yn argymhell y gall y gwasanaeth wella'r canlynol:

- Sicrhau bod cofnodion iechyd y staff yn gyflawn, gan gynnwys tystiolaeth wedi'i dogfennu o statws imiwneiddio rhag Hepatitis B, a bod asesiadau risg ar waith lle nad oes gwybodaeth ar gael
- Rhoi system effeithiol ar waith ar gyfer adolygu polisïau a gweithdrefnau yn rheolaidd, eu haddasu at ddibenion lleol, a rheoli fersiynau

Dyma beth roedd y gwasanaeth yn ei wneud yn dda:

- Dangosodd y staff ddiwylliant cadarnhaol a chefnogol ac roeddent yn gweithio'n effeithiol fel tîm
- Roedd arweinyddiaeth glir yn y practis ac roedd y staff yn teimlo eu bod yn cael eu cynnwys a'u cefnogi yn eu rolau.

3. Yr hyn a nodwyd gennym

Ansawdd Profiad y Claf

Adborth gan gleifion

Nododd pob un o'r cleifion a gwblhaodd holiadur AGIC ac y gwnaethom siarad â nhw fod y gwasanaeth a ddarperir gan y practis deintyddol yn 'dda iawn'.

Yn Canolbwyntio ar yr Unigolyn

Hybu iechyd a gwybodaeth i gleifion

Roedd deunydd hybu iechyd deintyddol yn cael ei arddangos ac roedd rhywfaint o'r wybodaeth hon ar gael yn Gymraeg a Saesneg. Felly, roedd hyn yn golygu bod gwybodaeth ar gael i gleifion a allai eu helpu i ofalu am hylendid eu ceg.

Roedd rhestrau prisiau hefyd wedi'u harddangos yn glir yn y dderbynfa ac yn yr ardal aros.

Dywedodd y cleifion a gwblhaodd holiadur wrthym fod y tîm deintyddol wedi rhoi cyfarwyddiadau ôl-ofal iddynt ar sut i gynnal iechyd y geg da.

Gofal urddasol a pharchus

Dywedodd y cleifion a gwblhaodd holiadur eu bod yn teimlo bod y staff yn y practis yn eu trin ag urddas a pharch. Fodd bynnag, gwelsom y gellid gwella'r trefniadau i ddiogelu preifatrwydd cleifion. Gwnaethom nodi, pan oedd drws y clinig ar agor, y gellid gweld y claf yn y gadair o'r palmant y tu allan.

Yn ogystal â hynny, er bod y staff yn siarad yn garedig ac yn gwrtais â chleifion, oherwydd maint a chynllun y practis, roedd yn bosibl clywed sgysiau yn glir o'r llawr cyntaf.

Rhaid i reolwr y practis sicrhau y caiff cyfrinachedd ac urddas cleifion eu cynnal, ac y cânt ofal parchus.

Dywedodd pob un o'r cleifion eu bod yn teimlo bod y tîm deintyddol yn eu helpu i ddeall yr holl opsiynau triniaeth ar yr adeg briodol. Dywedodd pob un o'r cleifion wrthym hefyd fod pethau bob amser yn cael eu hesbonio iddynt yn ystod eu hapwyntiad mewn ffordd y gallent ei deall.

Gwelsom fod y naw egwyddor ymarfer moesegol craidd, fel y'u nodwyd gan y Cyngor Deintyddol Cyffredinol, wedi'u harddangos ar y wal yn yr ystafell aros a'u bod hefyd ar gael yn y ffolder gwybodaeth i gleifion.

Gofal wedi'i deilwra at yr unigolyn

Mewn ymateb i holiadur AGIC, dywedodd pob un o'r cleifion wrthym eu bod yn cael digon o wybodaeth er mwyn deall pa opsiynau triniaeth oedd ar gael. Hefyd, dywedodd pob un o'r cleifion wrthym fod eu hanesion meddygol yn cael eu cadarnhau cyn iddynt gael triniaeth. Gwelsom dystiolaeth i gadarnhau bod hanes meddygol cleifion yn cael ei wirio a'i gofnodi yn y sampl o gofnodion cleifion a welsom.

Roedd pob claf yn cytuno ei fod wedi cael digon o wybodaeth i ddeall risgiau a manteision yr opsiynau triniaeth a bod y costau wedi cael eu nodi'n glir cyn cael triniaeth.

Gwelsom fod cynlluniau ac opsiynau o ran triniaethau wedi'u cofnodi yn y sampl o gofnodion cleifion a welsom. Roedd hyn yn golygu bod y cleifion wedi cael gwybodaeth i'w galluogi i wneud penderfyniad gwybodus am eu triniaeth.

Amserol

Gofal amserol

Gwelsom fod y staff yn gwneud pob ymdrech i sicrhau bod gofal deintyddol bob amser yn cael ei roi mewn modd amserol. Disgrifiodd y staff broses ar gyfer rhoi gwybod i'r cleifion am unrhyw oedi i amser eu hapwyntiad.

Dywedodd rhai o'r cleifion y gwnaethom siarad â nhw ac a gwblhaodd yr holiadur ei bod yn hawdd iawn cael apwyntiad pan oedd angen un arnynt.

Dywedodd pob claf a gwblhaodd yr holiadur ei fod yn gwybod sut i gael gafael ar y gwasanaeth deintyddol y tu allan i oriau pe bai problem ddeintyddol frys yn codi. Roedd rhif mewn argyfwng ar gael pe bai angen triniaeth ddeintyddol frys y tu allan i oriau ar y cleifion. Roedd manylion cyswllt wedi'u harddangos ger y brif fynedfa ac wedi'u darparu ar y neges peiriant ateb ac yn y daflen wybodaeth i gleifion.

Teg

Cyfathrebu ac iaith

Dywedodd y cleifion a gwblhaodd holiadur wrthym mai Saesneg oedd eu dewis iaith. Fodd bynnag, ardal Gymraeg ei hiaith yw'r ardal leol yn bennaf, ond nid oedd llawer o wybodaeth i gleifion nac arwyddion yn Gymraeg. Roedd gan y practis amrywiaeth o wybodaeth i gleifion, gan gynnwys taflen wybodaeth i gleifion a oedd yn cynnwys yr holl

wybodaeth sy'n ofynnol o dan y rheoliadau, a pholisi cwynion. Roedd yr holl wybodaeth ar gael yn Saesneg.

Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau bod darpariaeth Gymraeg i'w gweld a bod y gwasanaeth yn cefnogi'r Cynnig Rhagweithiol.

Roedd rhai o'r staff a oedd yn gweithio yn y practis yn siarad Cymraeg, a oedd yn helpu i ddiwallu anghenion cleifion sy'n siarad Cymraeg. Dywedwyd wrthym hefyd y byddai'r practis yn gwneud ymdrech i ddarparu gwybodaeth i gleifion yn eu dewis iaith a'u dewis fformat.

Dywedwyd wrthym hefyd y gallai'r staff, pe bai angen, ddefnyddio gwasanaethau cyfieithu i'w helpu i gyfathrebu â chleifion nad Cymraeg na Saesneg oedd eu hiaith gyntaf.

Hawliau a chydraddoldeb

Roedd polisi cyfle cyfartal ar waith. Roedd hyn yn golygu bod y practis yn ymrwymedig i sicrhau bod yr un cyfleoedd a'r un driniaeth deg ar gael i bawb. Gwnaethom nodi nad oedd cofnodion cleifion yn cynnwys gwybodaeth am ragenwau a ffefrir fel mater o drefn. Gallai'r practis ystyried cofnodi hyn er mwyn helpu i gefnogi gofal mwy personol a chynhwysol.

Gwelsom fod mynediad da i'r adeilad. Gallai pobl sy'n defnyddio cadair olwyn a chleifion ag amhariadau symudedd gael mynediad i'r dderbynfa, yr ardal aros a'r ddeintyddfa. Fodd bynnag, roedd y cyfleusterau toiled ar y llawr cyntaf ac roedd y practis yn esbonio cynllun yr adeilad i gleifion cyn eu hapwyntiad.

Darparu Gofal Diogel ac Effeithiol

Diogel

Rheoli risg

Roedd trefniadau ar waith i sicrhau diogelwch a llesiant y staff a phobl sy'n ymweld â'r practis.

Roedd y tu allan i'r adeilad yn cael ei gynnal a'i gadw i safon dderbyniol, ac roedd y fynedfa, y dderbynfa a'r ardal aros yn fodern, yn cynnwys digon o le, yn lân ac wedi'u haddurno'n dda. Fodd bynnag, roedd ôl traul ar yr ardaloedd y tu hwnt i'r dderbynfa ac roedd angen eu hadnewyddu, gan gynnwys yr ystafell ddihalogi. Roedd rhywfaint o waith adfer yn mynd rhagddo yn ystod yr arolygiad. Serch hynny, roedd yr ardaloedd hyn, ynghyd â chyfleuster storio ar ochr yr adeilad lle roedd y cywasgydd a'r cyfarpar glanhau yn cael eu cadw, o safon dderbyniol ar y cyfan.

Gallai'r staff fynd i bob rhan o'r llawr cyntaf a byddai angen i rai cleifion fynd i'r llawr cyntaf hefyd pe byddai angen iddynt fynd i'r toiled. Roedd grisiau serth a chul yn arwain at y llawr cyntaf, ac roedd canllaw wedi'i osod er hwylustod. Roedd deunydd llawr lamedig ar y grisiau, a gwnaethom nodi bod cebl wedi'i osod ar draws y grisiau er mwyn cyrraedd yr ystafell ddihalogi. Roedd y cebl hwn mewn gorchudd i'w ddiogelu a'i osod yn sownd i'r grisiau; fodd bynnag, roedd wedi llacio dros amser wrth i bobl ddefnyddio'r grisiau, a gallai beri risg i'r rhai a oedd yn defnyddio'r grisiau.

Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau bod y cebl yn cael ei osod yn sownd i'w safle gwreiddiol er mwyn lleihau'r risg o faglu a chwympo.

Roedd cyfarpar diffodd tân ar gael mewn gwahanol leoliadau yn y practis, a gwelsom fod y cyfarpar hwnnw wedi cael ei wasanaethu yn ystod y 12 mis diwethaf. Roedd pob aelod o'r staff ond un wedi cael hyfforddiant tân, ac roedd yr unigolyn nad oedd wedi cael yr hyfforddiant wedi trefnu i'w gwblhau yn fuan. Roedd yr allanfeydd tân yn weladwy, a gwelsom arwyddion 'Dim Smygu' yn y practis a oedd yn cadarnhau bod y practis yn cydymffurfio â'r ddeddfwriaeth ynglŷn â mangreoedd di-fwg.

Roedd poster lechyd a Diogelwch wedi'i arddangos. Fodd bynnag, gwnaethom nodi ei fod yn cynnwys manylion anghywir a chafodd hyn ei ddiwygio yn ystod yr arolygiad.

Roedd gan y practis amrywiaeth o bolisiau a gweithdrefnau ar waith, yn ogystal ag asesiadau risg, megis tân ac ieuchyd a diogelwch. Roedd yr holl asesiadau risg yn gyfredol ac yn cael eu hadolygu'n rheolaidd, ond roedd angen diweddarau'r polisi lechyd a Diogelwch ei hun.

Gwelsom fod cynllun parhad busnes ar waith i sicrhau parhad y gwasanaethau a ddarperir a gofal diogel i'r cleifion.

Atal a rheoli heintiau a dihalogi

Roedd gan y practis ardal ddynodedig ar gyfer glanhau a sterileiddio (dihalogi) offer deintyddol. Roedd yr ardal hon yn lân ond nid oedd yn cynnwys unrhyw gyfleusterau golchi dwylo. Dywedodd y staff wrthym eu bod yn defnyddio'r sinc golchi dwylo yn y ddeintyddfa drws nesaf.

Roedd y trefniadau dihalogi ar gyfer glanhau a sterileiddio offer yn dderbyniol. Dangosodd y staff y broses ddihalogi i ni, a gwnaethom nodi'r canlynol:

- Roedd y cyfarpar a ddefnyddiwyd mewn cyflwr da
- Roedd eitemau offer yn cael eu storio'n briodol ac roedd dyddiadau wedi'u nodi arnynt
- Roedd digon o gyfarpar diogelu personol ar gael i ddiogelu'r staff rhag anafiadau a/neu heintiau
- Roedd gwiriadau cynnal a chadw dyddiol yn cael eu cynnal a'u cofnodi
- Roedd y cynwysyddion ar gyfer storio offer yn gadarn ac yn ddiogel.

Gwelsom fod y gweithdrefnau ar gyfer glanhau, sterileiddio a storio offer yn gyson â'r canllawiau arferion gorau cyfredol. Fodd bynnag, gwelsom fod y staff yn cario eitemau o offer wedi'u defnyddio ar hambwrdd agored o'r ddeintyddfa i'r ystafell ddihalogi ac nid mewn blwch caeedig ar gyfer offer 'budr'. Gwelsom hefyd fod eitemau o offer miniog yn cael eu cario o'r ddeintyddfa i'r ystafell ddihalogi i'w gwaredu, er bod blwch offer miniog wedi'i osod yn briodol yn y ddeintyddfa wrth ymyl y gadair.

Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau bod eitemau o offer wedi'u halogi yn cael eu symud i'r ystafell ddihalogi mewn cynhwysydd diogel caeedig, nad yw'n gollwng, yn unol â WHTM 01-05.

Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau bod eitemau o offer miniog yn cael eu gwaredu ar unwaith ar ôl eu defnyddio ac nad ydynt yn cael eu symud rhwng ardaloedd i'w gwaredu.

Roedd rhaglen cynnal a chadw ddyddiol ar waith i wirio'r cyfarpar sterileiddio. Roedd cofnodlyfr yn cael ei ddefnyddio i gofnodi gwiriadau diogelwch ar yr awtoclaf ar ddechrau a diwedd y dydd.

Roedd rhestr wirio ar gyfer glanhau yn y ddeintyddfa, a gwelsom fod y rhestr wedi cael ei chwblhau'n rheolaidd.

Roedd polisi rheoli heintiau ar waith, a oedd yn cyfeirio at hylendid dwylo, trin a thrafod a gwaredu gwastraff clinigol yn ddiogel, trefniadau cadw tŷ a glanhau a hyfforddiant perthnasol.

Roedd trefniadau priodol ar waith i ymdrin ag anafiadau a achoswyd gan eitemau miniog. Gwelsom gofnodion yn ymwneud â statws imiwneiddio rhag Hepatitis B pob aelod o'r staff. Fodd bynnag, nid oedd statws Hepatitis B un aelod o'r staff wedi'i gofnodi.

Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau bod cofnodion imiwneiddio'r staff, gan gynnwys eu statws o ran Hepatitis B, yn gyflawn. Lle nad oes gwybodaeth ar gael, rhaid cynnal asesiad risg a rhoi mesurau rheoli priodol ar waith.

Roedd system ar waith i reoli gwastraff mewn ffordd briodol a diogel. Roedd dogfennaeth contract ar waith i waredu gwastraff peryglus (clinigol) a gwastraff nad yw'n beryglus (gwastraff cartref). Gwelsom fod yr holl wastraff wedi cael ei ddioli a'i roi yn y bagiau a'r cynwysyddion dynodedig yn unol â'r dull gwaredu cywir.

Rheoli meddyginiaethau

Roedd gweithdrefnau addas ar waith a oedd yn dangos sut i ymateb i argyfyngau meddygol cleifion. Roedd pob aelod o'r staff clinigol wedi cael hyfforddiant adfywio cardiopwlmonaidd (CPR). Roedd gan y practis ddau swyddog cymorth cyntaf hyfforddedig llawn amser.

Roedd y cyffuriau brys yn cael eu storio'n ddiogel. Roedd system ar waith i archwilio'r cyffuriau a'r cyfarpar brys er mwyn sicrhau eu bod yn gyfredol ac yn barod i'w defnyddio, yn unol â'r safonau a bennwyd gan Gyngor Adfywio'r DU. Fodd bynnag, gwelsom fod rhai eitemau ar goll o'r bocs cyffuriau – aspirin gwasgaradwy a glwcagon. Roedd y glwcagon wedi cael ei dynnu o'r oergell a'i storio gyda'r bag adfywio, ac roedd y dyddiad dod i ben arno wedi cael ei ddiwygio'n briodol.

Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau y caiff y cyffuriau angenrheidiol eu rhoi yn y bocs cyffuriau.

Dywedwyd wrthym fod pob aelod o'r staff yn cael hyfforddiant priodol ar sut i ddefnyddio silindrau ocsigen fel rhan o'u hyfforddiant adfywio cardiopwlmonaidd blynyddol.

Gwelsom fod padiau presgripsiynau yn cael eu storio'n ddiogel.

Roedd polisi ar waith ar gyfer archebu, cofnodi, rhoi a chyflenwi meddyginiaethau i gleifion. Dangosodd y staff eu bod yn gwybod pa weithdrefnau i'w dilyn pe bai argyfwng meddygol neu pe bai'n rhaid iddynt roi gwybod am ddigwyddiad a oedd yn ymwneud â meddyginiaeth.

Gwelsom fod gwrthfotigau'n cael eu rhoi yn y practis a bod yr holl weithdrefnau gweithredu a phresgripsiynu priodol yn cael eu dilyn. Fodd bynnag, gwelsom nad oedd cleifion yn cael taflenni gwybodaeth ysgrifenedig fel mater o drefn pan oedd gwrthfotigau'n cael eu rhoi. Aethpwyd i'r afael â hyn yn ystod yr arolygiad drwy argraffu taflenni gwybodaeth cyfredol a sicrhau eu bod ar gael.

Diogelu plant ac oedolion

Roedd polisiâu a gweithdrefnau ar waith i hyrwyddo a diogelu lles a diogelwch plant ac oedolion sy'n agored i niwed neu sy'n wynebu risg. Roedd y polisiâu yn cynnwys manylion cyswllt y tîm diogelu lleol, ynghyd â siartiau llif manwl a oedd yn hysbysu'r staff am y camau gweithredu i'w cymryd pe bai mater diogelu yn codi.

Gwelsom dystiolaeth bod pob aelod o'r staff clinigol wedi cwblhau hyfforddiant diogelu plant ac oedolion agored i niwed. Y rheolwr cofrestredig oedd yr arweinydd diogelu enwebedig ac roedd wedi cwblhau hyfforddiant lefel tri.

Dywedodd y staff wrthym eu bod yn teimlo eu bod yn gallu codi unrhyw bryderon ynglŷn â gwaith yn uniongyrchol gyda rheolwr y practis neu'r rheolwr cofrestredig ac roeddent yn hyderus iawn y byddent yn gweithredu ar unrhyw bryderon.

Gwelsom fod polisi chwythu'r chwiban ar waith yn y practis.

Rheoli dyfeisiau a chyfarpar meddygol

Edrychwyd ar y cyfleusterau clinigol a gwelsom eu bod yn cynnwys y cyfarpar perthnasol. Roedd y deintyddfeydd yn drefnus, yn lân ac yn daclus.

Roedd yr holl gyfarpar pelydr-X mewn cyflwr da ac yn gweithio'n iawn. Roedd trefniadau ar waith i helpu'r staff i ddefnyddio'r cyfarpar pelydr-X yn ddiogel ac roedd archwiliadau sicrhau ansawdd rheolaidd yn cael eu cwblhau o ddelweddau pelydr-X. Gwelsom dystiolaeth bod pob aelod o'r staff clinigol wedi cael yr hyfforddiant ymbelydredd ïoneiddio diweddaraf. Fodd bynnag, gwnaethom nodi nad oedd y gwiriadau digidol ar gyfer y Cynghorydd Diogelu rhag Ymbelydredd yn gyfredol.

Rhaid i'r rheolwr ddiweddarau ffeil y Cynghorydd Diogelu rhag Ymbelydredd i ddangos gwybodaeth gyfredol a sicrhau bod yr holl wiriadau digidol yn gyfredol.

Effeithiol

Gofal effeithiol

Roedd trefniadau boddhaol ar waith ar gyfer derbyn cleifion, eu hasesu, rhoi diagnosis iddynt a'u trin. Roedd y trefniadau hyn wedi'u dogfennu yn y datganiad o ddiben ac mewn polisïau a gweithdrefnau.

Cofnodion cleifion

Edrychwyd ar sampl o gofnodion deg claf. Ar y cyfan, gwelwyd tystiolaeth bod cofnodion clinigol da yn cael eu cadw, a oedd yn dangos bod gofal yn cael ei gynllunio a'i roi er mwyn sicrhau diogelwch a llesiant y cleifion. Roedd pob cofnod wedi'i deilwra at yr unigolyn ac yn cynnwys dynodyddion cleifion priodol a'r rheswm dros yr apwyntiad. Roedd y cofnodion yn glir, yn ddarllenadwy, ac o ansawdd da. Fodd bynnag, gwelsom nad oedd dewisiadau iaith cleifion yn cael eu cofnodi. Gwnaethom hefyd nodi nad oedd ansawdd cofnodion a dehongliadau pob aelod o'r tîm clinigol o archwiliadau pelydr-X yn gyson.

Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau'r canlynol:

- **y caiff dewisiadau iaith cleifion eu cofnodi**
- **y caiff radiograffau eu cofnodi'n gyson yng nghofnodion cleifion gan bob clinigydd, yn unol â chanllawiau a safonau proffesiynol cydnabyddedig.**

Effeithlon

Effeithlon

Gwelsom fod y cyfleusterau yn briodol ar gyfer darparu gwasanaethau deintyddol a bod prosesau ar waith i weithredu'r practis yn effeithlon.

Dywedodd pob aelod o'r staff y gwnaethom siarad â nhw fod y cyfleusterau yn y practis yn addas iddynt gyflawni eu dyletswyddau a bod yr amgylchedd yn briodol i sicrhau bod y cleifion yn cael y gofal sydd ei angen arnynt.

Dywedwyd wrthym fod atgyfeiriadau at weithwyr gofal iechyd proffesiynol eraill yn cael eu gwneud yn electronig, ac felly bod modd rhannu gwybodaeth yn effeithlon.

Dywedwyd wrthym hefyd y byddai staff y practis yn mynd ar drywydd unrhyw

atgyfeiriadau yr ystyriwyd eu bod yn rhai brys, fel amheuon o ganser y geg, er mwyn sicrhau bod y cleifion yn cael apwyntiad amserol.

Lle bynnag y bo'n bosibl, roedd y practis yn trefnu i weld cleifion yr oedd angen gofal a thriniaeth frys arnynt o fewn oriau agor arferol er mwyn atal sefyllfa lle y byddai'n rhaid i'r cleifion fynychu gwasanaethau gofal brys neu wasanaethau y tu allan i oriau.

Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth

Adborth gan Staff

Dywedodd y staff fod y practis yn lle cadarnhaol i weithio. Roedd yr adborth yn canolbwyntio ar y diwylliant cefnogol, yr ymrwymiad cryf i ofal cleifion, a phroffesiynoldeb y tîm.

Nododd y staff fod ffocws cryf ar sicrhau cydbwysedd rhwng bywyd a gwaith. Roeddent o'r farn bod gofal cleifion yn cael ei flaenoriaethu a bod y staff bob amser yn gwrtais, yn wybodus ac yn broffesiynol. Roeddent yn teimlo bod y practis yn lân, yn daclus ac yn cael ei gynnal a'i gadw'n dda, a bod cleifion yn cael esboniadau clir am eu triniaeth a'r costau cysylltiedig.

Arweinyddiaeth

Llywodraethu ac arweinyddiaeth

Rheolwr y practis oedd yn gyfrifol am reoli'r practis o ddydd i ddydd a gwelsom ei bod yn ymroddedig i'r rôl. Dywedodd y staff wrthym eu bod yn hyderus i godi unrhyw broblemau neu bryderon yn uniongyrchol â rheolwr y practis a/neu'r prif ddeintydd ac roedd pawb yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi'n dda yn eu rolau.

Roedd y staff yn glir iawn ac yn wybodus ynghylch eu rolau a'u cyfrifoldebau ac roeddent yn ymrwymedig i ddarparu gofal o safon uchel i'r cleifion, wedi'u cefnogi gan amrywiaeth o bolisiâu a gweithdrefnau. Fodd bynnag, gwnaethom nodi nad oedd pob polisi a gweithdrefn yn cynnwys dyddiad cyhoeddi a/neu adolygu neu nad oedd wedi'i deilwra at y practis.

Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau bod pob polisi yn cael ei adolygu'n rheolaidd, bod proses rheoli fersiynau briodol ar waith, a bod pob polisi wedi'i deilwra i adlewyrchu gweithdrefnau a threfniadau gwaith presennol y practis

Roedd trefniadau priodol ar waith ar gyfer rhannu gwybodaeth drwy gyfarfodydd tîm ar gyfer y practis cyfan. Roedd pynciau perthnasol yn cael eu trafod yn ystod y cyfarfodydd hyn ac roedd cofnodion yn cael eu cadw.

Roedd pob aelod o'r staff clinigol wedi'i gofrestru â'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol ac roedd yswiriant indemniad priodol ar waith ar gyfer pob un ohonynt. Roedd gan y practis yswiriant atebolrwydd cyhoeddus cyfredol hefyd.

Y Gweithlu

Gweithlu medrus a galluog

Disgrifiodd rheolwr y practis y gwiriadau cyn cyflogi a oedd yn cael eu cynnal ar gyfer unrhyw aelodau newydd o'r staff. Roedd hyn yn cynnwys cadarnhau geirdaon a chynnal gwiriadau'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd. Cadarnhawyd gennym fod gan bob aelod perthnasol o'r staff wiriad dilys gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd.

Roedd gan bob aelod o'r staff a oedd yn gweithio yn y practis gcontract cyflogaeth ac roedd rhaglen sefydlu ar waith, a oedd yn cynnwys cwblhau hyfforddiant a darllen polisïau a gweithdrefnau perthnasol. Gwelsom hefyd fod arfarniadau staff wedi cael eu cynnal ar gyfer 80% o'r staff.

Roedd ffeiliau'r staff yn cynnwys y wybodaeth angenrheidiol i gadarnhau eu bod yn parhau i fod yn addas i gyflawni eu rolau. Roedd tystysgrifau hyfforddiant yn cael eu cadw ar ffeil fel sy'n ofynnol. Roedd pob aelod o'r staff clinigol wedi cael hyfforddiant ar amrywiaeth o bynciau a oedd yn berthnasol i'w rolau ac yn bodloni'r gofynion o ran Datblygiad Proffesiynol Parhaus (DPP).

Cadarnhaodd y rheolwr cofrestredig ei fod yn ymwybodol o'i ddyletswyddau a'i rwymedigaethau fel y'u nodwyd yn Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017.

Diwylliant

Ymgysylltu â phobl, adborth a dysgu

Roedd gweithdrefn gwyno ysgrifenedig ar waith. Roedd hon ar gael i bob claf yn yr ardal aros. Roedd manylion hefyd wedi'u cynnwys yn y daflen wybodaeth i gleifion ac yn y datganiad o ddiben.

Gwnaethom drafod y dull o geisio adborth gan y cleifion. Roedd cleifion yn cael holiaduron papur i'w llenwi a gallent hefyd roi adborth drwy'r cyfryngau cymdeithasol. At hynny, roedd blwch sylwadau yn yr ardal aros i gleifion roi adborth dienw.

Roedd polisi Dyletswydd Gonestrwydd ar waith. Dywedodd pob aelod o'r staff y gwnaethom siarad â nhw eu bod yn gwybod ac yn deall eu cyfrifoldebau o dan y

Ddyletswydd Gonestrwydd.

Gwybodaeth

Llywodraethu gwybodaeth a thechnoleg ddigidol

Roedd systemau cyfathrebu addas ar waith er mwyn helpu i weithredu'r practis.

Roedd gwybodaeth am gleifion yn cael ei storio'n briodol, gan sicrhau diogelwch data personol. Roedd yr holl gofnodion papur yn cael eu storio'n ddiogel ac roedd copïau wrth gefn o ffeiliau electronig yn cael eu gwneud yn rheolaidd. Roedd mynediad at sgriniau cyfrifiaduron yn ddiogel ac nid oedd modd i neb heb awdurdod eu gweld. Roedd polisi diogelu data ar waith i hysbysu'r staff am yr hyn a oedd yn ofynnol ganddynt.

Dysgu, gwella ac ymchwil

Gweithgareddau gwella ansawdd

Roedd yn amlwg iawn bod y staff yn y practis yn ceisio gwella'r gwasanaeth a ddarperir yn barhaus. Rhoddwyd enghreifftiau i ni o archwiliadau amrywiol a oedd yn cael eu cynnal fel rhan o weithgarwch gwella ansawdd y practis. Roedd y rhain yn cynnwys archwiliadau o hylendid dwylo ac adborth gan gleifion.

Gwelsom fod aelodau'r tîm deintyddol yn rhagweithiol, yn wybodus ac yn broffesiynol, ac yn dangos eu dealltwriaeth o ble a sut i gael cyngor ac arweiniad.

Dull systemau cyfan

Gweithio mewn partneriaeth a datblygu

Disgrifiodd rheolwr y practis y trefniadau sydd ar waith ar gyfer ymgysylltu â gwasanaethau eraill. Mae'r practis ei hun wedi cofrestru'n ddiweddar i ddarparu gwasanaethau meddyg teulu, podiatreg a ffisiotherapi. Darperir y gwasanaeth hwn fel rhan o gynllun gofal preifat cynhwysol.

Dywedwyd wrthym fod system electronig yn cael ei defnyddio i atgyfeirio cleifion, gan gynnwys y rhai hynny yr oedd angen eu hatgyfeirio ar frys, at wasanaethau gofal iechyd eilaidd.

4. Y camau nesaf

Lle rydym wedi nodi gwelliannau a phryderon uniongyrchol yn ystod ein harolygiad y mae'n ofynnol i'r gwasanaeth gymryd camau yn eu cylch, nodir y rhain yn y ffyrdd canlynol yn atodiadau'r adroddiad hwn (lle y bônt yn gymwys):

- Atodiad A: Yn cynnwys crynodeb o unrhyw bryderon am ddiogelwch cleifion a gafodd eu huwchgyfeirio a'u datrys yn ystod yr arolygiad
- Atodiad B: Yn cynnwys unrhyw bryderon uniongyrchol am ddiogelwch cleifion lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella ar unwaith yn dweud wrthym am y camau brys y mae'n eu cymryd
- Atodiad C: Yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad, lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella sy'n dweud wrthym am y camau y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

Dylai'r cynlluniau gwella wneud y canlynol:

- Nodi'n glir sut yr ymdrinnir â'r canfyddiadau a nodwyd
- Sicrhau bod y camau a gymerir mewn ymateb i'r materion a nodwyd yn benodol, yn fesuradwy, yn gyflawnadwy, yn realistig ac wedi'u hamseru
- Cynnwys digon o fanylion er mwyn rhoi sicrwydd i AGIC a'r cyhoedd yr ymdrinnir â'r canfyddiadau a nodwyd yn ddigonol
- Sicrhau bod y dystiolaeth ofynnol yn erbyn y camau a nodwyd yn cael ei rhoi i AGIC o fewn tri mis i'r arolygiad.

O ganlyniad i ganfyddiadau'r arolygiad hwn, dylai'r gwasanaeth wneud y canlynol:

- Sicrhau nad yw'r canfyddiadau yn systemig ar draws rhannau eraill o'r sefydliad ehangach
- Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i AGIC pan fydd camau yn dal i fod heb eu cymryd a/neu ar y gweill, er mwyn cadarnhau pan fyddant wedi cael eu cwblhau.

Caiff y cynllun gwella, ar ôl cytuno arno, ei gyhoeddi ar [wefan](#) AGIC.

Atodiad A – Crynodeb o bryderon a ddatryswyd yn ystod yr arolygiad

Mae'r tabl isod yn crynhoi'r pryderon a gafodd eu nodi a'u huwchgyfeirio yn ystod ein harolygiad. Oherwydd yr effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth cleifion, roedd angen ymdrin â'r pryderon hyn ar unwaith, yn ystod yr arolygiad.

Pryderon uniongyrchol a nodwyd	Yr effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth cleifion	Sut gwnaeth AGIC uwchgyfeirio'r pryder	Sut cafodd y pryder ei ddatrys
Ni nodwyd unrhyw bryderon yr oedd angen ymdrin â nhw ar unwaith yn ystod yr arolygiad hwn.			

Atodiad B – Cynllun gwella ar unwaith

Gwasanaeth: Practis Deintyddol Johnstown

Dyddiad yr arolygiad: 19 Mai 2026

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw bryderon uniongyrchol am ddiffyg cydymffurfio sy'n ymwneud â diogelwch cleifion a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella ar unwaith sy'n nodi'r camau brys y mae'n eu cymryd.

Canfyddiadau		
Yr hyn sydd angen ei wella		Safon / Rheoliad
1.	Ni nodwyd unrhyw faterion brys yn ymwneud â diffyg cydymffurfio yn ystod yr arolygiad hwn.	
Camau Gweithredu gan y Gwasanaeth:		Swyddog cyfrifol
		Amserlen

Rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd o'r gwasanaeth sydd â chyfrifoldeb ac atebolrwydd cyffredinol am sicrhau bod y cynllun gwella yn cael ei roi ar waith.

Cynrychiolydd y gwasanaeth:

Enw (priflythrennau):

Swydd:

Dyddiad:

Atodiad C – Cynllun gwella

Gwasanaeth: Practis Deintyddol Johnstown

Dyddiad yr arolygiad: 19 Mai 2026

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad, lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella sy'n dweud wrthym am y camau y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

Risg/canfyddiad/mater		Yr hyn sydd angen ei wella	Safon / Rheoliad	Camau gweithredu gan y gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
1.	Mae'r llawr gwaelod ar ffurf agored ac mae digon o le. Mae sŵn yn cario a gellid clywed pob sgwrs, boed ar lafar yn yr ardal aros neu dros y ffôn	Mae angen i'r staff fod yn ymwybodol y gellir clywed sgysiau. Gellid ystyried neilltuo amser i ffwrdd o'r dderbynfa i wneud galwadau ffôn preifat i gleifion	Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017 a/neu Safonau Iechyd a Gofal 2023	Dylai'r staff ystyried cyfrinachedd yn amgylchedd cynllun agored y llawr gwaelod. Lle bo modd, dylid cynnal galwadau ffôn cyfrinachol a thrafodaethau sensitif â chleifion mewn ystafell breifat neu ardal ddynodedig i ffwrdd o'r dderbynfa a'r ardaloedd aros.	Rheolwr Practis	Ar unwaith.

2.	Pan fydd drws y clinig ar agor, gellir gweld unrhyw glaf sy'n cael triniaeth yn y gadair o'r palmant cyhoeddus y tu allan.	Mae'n hanfodol bod y practis yn cynnal urddas a phreifatrwydd pob claf sy'n cael triniaeth. Argymhellir y dylid gosod haenen farugog ar y ffenestr berthnasol, gan nad yw'r bleinds presennol yn sicrhau preifatrwydd cleifion yn ddigonol.	Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017 a/neu Safonau Iechyd a Gofal 2023	Hoffai'r practis gadarnhau nad yw drws y ddeintyddfa yn cael ei gadw ar agor pan fydd cleifion yn cael triniaeth, ac felly na ellir gweld cleifion yn y gadair ddeintyddol o'r palmant cyhoeddus fel arfer. Mae gweithdrefnau eisoes ar waith i ddiogelu urddas a phreifatrwydd cleifion yn ystod triniaethau. Bydd y practis yn trafod y sylwadau a wnaed ac yn ystyried a fyddai unrhyw fesurau ychwanegol, fel haenen farugog, yn rhoi mwy o sicrwydd ac yn atgyfnerthu'r mesurau ar gyfer diogelu preifatrwydd.	Rheolwr Practis Rheolwr Cofrestredig	O fewn 3 mis.
----	---	--	--	---	---	----------------------

3.	Dim arwyddion dwyieithog yn y ddeintyddfa.	Mae angen ystyried y Gymraeg - does dim staff nac arwyddion dwyieithog. Dylid darparu'r 'cynnig rhagweithiol'.	Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011	Bydd y practis yn adolygu ei ddarpariaeth Gymraeg ac yn gosod arwyddion dwyieithog lle y bo'n briodol. Rhoddir gwybod i'r staff am egwyddor y "Cynnig Rhagweithiol" ar gyfer y Gymraeg a'r adnoddau sydd ar gael i gefnogi cleifion sy'n dymuno cyfathrebu yn Gymraeg. Bydd y practis hefyd yn edrych ar y wybodaeth i gleifion er mwyn nodi cyfleoedd i gynyddu'r ddarpariaeth ddwyieithog.	Rheolwr Practis	O fewn 3 mis.
----	--	--	------------------------------	--	-----------------	---------------

4.	Mae'r grisiau'n gul ac yn serth, ac yn cael eu defnyddio'n aml gan y cyhoedd, sy'n golygu eu bod yn anaddas i rai cleifion. Hefyd, mae cebl trydan yn rhedeg ar draws un gris; er ei fod o dan orchudd, mae'r gorchudd wedi llacio a gellir ei symud.	Mae angen i'r practis sicrhau nad oes unrhyw beryglon baglu yn yr ardaloedd cyhoeddus.	Rheoliadau'r Gweithle (Iechyd, Diogelwch a Lles) 1992	Mae'r practis wedi ystyried y perygl baglu a nodwyd. Er bod gorchudd presennol y cebl yn ddiogel ac yn cael ei fonitro'n rheolaidd, caiff opsiynau amgen ar gyfer cebl y rhyngwrwyd eu hystyried er mwyn lleihau unrhyw risg bosibl i gleifion ac ymwelwyr sy'n defnyddio'r grisiau ymhellach.	Rheolwr Practis Rheolwr Cofrestredig	O fewn 3 mis.
----	---	--	---	--	--	---------------

5.	Mae perygl baglu amgylcheddol ar landin y llawr cyntaf. Mae darn o garped tenau, wedi'i dorri'n sgwariau, wedi dod yn rhydd er ei fod wedi cael ei osod yn sownd yn y gorffennol. Mae hyn yn peri risg bosibl i ddiogelwch staff sy'n symud rhwng ardal y grisiau, yr ystafell staff, swyddfa'r rheolwyr, a'r feddygfa.	Mae angen rhoi sylw i'r gorchudd llawr ar unwaith er mwyn osgoi niwed difrifol.	Deddf Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith etc 1974 Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017 – diogelwch ac addasrwydd mangreoedd	Mae'r practis wedi edrych ar gyflwr y teils carped ar landin y llawr cyntaf. Yn dilyn gwaith a wnaed gan gontractwyr allanol, daeth nifer o deils carped yn rhydd. Fel mesur rheoli ar unwaith, mae'r teils rhydd wedi cael eu gosod yn sownd â glud er mwyn lleihau unrhyw risg o faglu neu syrthio. Rydym wedi cael dyfynbris ar gyfer gosod llawr newydd, ac mae hwn wedi'i gyflwyno i berchennog y practis ei ystyried. Bydd yr ardal yn parhau i gael ei monitro fel rhan o wiriadau iechyd a diogelwch rheolaidd er mwyn sicrhau ei bod yn parhau i fod yn ddiogel i'r staff ac ymwelwyr.	Rheolwr Practis Rheolwr Cofrestredig	Mae'r cam gweithredu ar unwaith wedi'i gwblhau (mae'r teils wedi'u gosod yn sownd) a bydd gwaith monitro yn parhau nes y gellir cymeradwyo a gosod llawr newydd. Adolygiad parhaus o fewn tri mis.
----	--	--	--	---	--	--

6.	Roedd eitemau o offer wedi'u halogi yn cael eu symud ar hambwrdd o'r ardal glinigol i'r ystafell ddihalogi.	Mae angen defnyddio blychau offer budr er mwyn sicrhau diogelwch y staff a chleifion wrth symud offer budr.	Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017 a Memorandwm Technegol Iechyd Cymru WHTM 01-05	Mae blychau cludo offer glân a budr priodol ar gael yn y practis ar gyfer symud offer yn ddiogel rhwng yr ardal glinigol a'r ardal ddihalogi. Caiff y staff eu hatgoffa o'r gofyniad i ddefnyddio'r blychau offer budr dynodedig wrth symud eitemau o offer wedi'u halogi er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth â'r gweithdrefnau atal a rheoli heintiau a lleihau'r risg o groes-halogi neu anaf. Caiff cydymffurfiaeth â'r weithdrefn ei monitro drwy gamau goruchwyllo rheolaidd a thrafodaethau â'r staff.	Rheolwr Practis	Ar unwaith.
----	--	--	--	--	-----------------	-------------

7.	Roedd y staff clinigol yn symud eitemau offer miniog wedi'u datgymalu ar hambwrdd i'r ystafell ddihalogi i'w gwaredu.	Nid oedd yr asesiad risg ar gyfer offer miniog yn cael ei ddilyn.	Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017	Mae biniau offer miniog ar gael ym mhob ardal glinigol i'w gwaredu ar ôl eu defnyddio. Caiff y staff eu hatgoffa o'r gofyniad i glinigwyr waredu eitemau offer miniog ar unwaith ar ôl eu defnyddio yn unol ag asesiad risg y practis ar gyfer offer miniog a'i weithdrefnau atal a rheoli heintiau. Caiff y weithdrefn gwaredu offer miniog ei hadolygu gyda phob aelod o'r staff clinigol, a chaiff cydymffurfiaeth ei monitro drwy drefniadau goruchwyllo ac archwilio rheolaidd.	Rheolwr Practis Rheolwr Cofrestredig	Ar unwaith.
----	---	---	---	--	---	-------------

8.	Roedd yr ystafell ddihalogi wrthi'n cael ei hadnewyddu. Roedd yr ardal hefyd yn cael ei defnyddio at ddibenion storio. Nid oedd unrhyw • gyfleusterau golchi dwylo. • cyfleusterau storio priodol ar gyfer cynhyrchion COSHH. • strwythur clinigol i'r cynllun.	Deallwn fod y gwaith adnewyddu yn parhau. Fodd bynnag, er mwyn sicrhau diogelwch cleifion, mae angen i'r gwaith hwn gael ei gwblhau ar frys. Gwnaethom nodi cwpwrdd metel a oedd yn addas ar gyfer cynhyrchion COSHH, a gwnaethom awgrymu y dylid addasu'r defnydd a wneir ohono.	Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017	Mae'r practis wedi adolygu'r trefniadau ar gyfer yr ystafell ddihalogi yn dilyn yr arolygiad. Mae'r holl gynhyrchion COSHH wedi cael eu symud i gwpwrdd metel addas y gellir ei gloi yn yr ardal ddihalogi er mwyn gwella'r trefniadau storio a rheoli mynediad. Mae'r gwaith i adnewyddu ystafell ddihalogi newydd yn mynd rhagddo o hyd. Rydym wedi cael dyfynbrisiau ar gyfer cwblhau'r gwaith plymio gofynnol, ac mae'r rhain wedi'u cyflwyno i berchennog y practis eu hystyried. Yn y cyfamser, bydd y practis yn parhau i fonitro'r ardal ddihalogi bresennol a sicrhau bod mesurau atal a rheoli heintiau priodol yn cael eu cynnal tra	Rheolwr Practis Rheolwr Cofrestredig	Mae'r camau ar gyfer storio cynhyrchion COSHH wedi'u cwblhau. Gwaith adnewyddu: yn amodol ar gymeradwyaeth a chyllid. Caiff ei adolygu ymhen 6 mis.
----	---	---	--	---	--	---

				bydd y gwaith adnewyddu yn yr arfaeth ar gyfer yr ardal ddihalogi newydd.		
--	--	--	--	--	--	--

9.	Nid oes gan un aelod o'r staff gofnodion datganiadau iechyd cyflawn na data Hepatitis B.	Rhaid i'r practis ymgysylltu â darparwr iechyd Galwedigaethol i sicrhau y darperir cymorth ar gyfer y staff ac aelodau newydd o staff. Fel arall, dylai fod asesiad risg ar waith.	Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017	Mae'r practis wedi nodi nad yw cofnodion datganiad iechyd un aelod o'r staff yn gyflawn ac nad oes gwybodaeth Hepatitis B ar gael ar ei gyfer. Caiff asesiad risg ei gwblhau a'i gadw ar ffeil hyd nes y daw'r wybodaeth dan sylw i law. Bydd y practis yn adolygu'r gofynion o ran dogfennaeth iechyd galwedigaethol ar gyfer pob aelod o'r staff ac yn sicrhau y caiff datganiadau iechyd, cofnodion imiwneiddio a gwybodaeth iechyd galwedigaethol priodol eu darparu a'u cadw. Ymdrinnir â hyn pan fydd yr aelod o staff dan sylw yn dychwelyd i'r gwaith neu pan fydd y wybodaeth ofynnol ar gael.	Rheolwr Practis Rheolwr Cofrestredig	Asesiad risg o fewn 1 mis. Byddwn yn cael gafael ar y ddogfennaeth sydd ei hangen pan fydd yr aelod o staff yn dychwelyd i'r gwaith, o fewn 3 mis.
----	--	--	---	---	---	--

10.	Nid oedd y trefniadau ar gyfer storio cyffuriau i'w defnyddio ar gyfer argyfyngau clinigol yn bodloni'r canllawiau a argymhellir nac yn cyrraedd y safonau storio priodol.	Dim aspirin gwasgaradwy. Roedd y glwcagon wedi'i dynnu o'r oergell ac felly mae angen newid ei ddyddiad dod i ben. Mae angen sicrhau bod yr holl gyffuriau angenrheidiol ar gael.	Canllawiau Cyngor Adfywio'r DU.	Mae'r practis wedi adolygu ei feddyginiaethau brys a'i drefniadau storio yn dilyn yr arolygiad. Caiff y pecyn cyffuriau brys ei wirio yn erbyn y canllawiau cyfredol a argymhellir er mwyn sicrhau bod y meddyginiaethau, y fformwleiddiadau a'r gofynion storio cywir ar waith. Caiff stoc newydd briodol ei harchebu lle bo angen, gan gynnwys y fformwleiddiadau a argymhellir ar gyfer y meddyginiaethau brys. Caiff gofynion storio a dyddiadau dod i ben eu hadolygu a'u monitro fel rhan o'r broses reolaidd ar gyfer gwirio meddyginiaethau brys er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth barhaus.	Rheolwr Practis	1 mis.
-----	--	---	---------------------------------	---	-----------------	--------

11.	Nid oedd y gwiriadau digidol ar gyfer ffeil y Cyngorydd Diogelu rhag Ymbelydredd yn gyfredol	Mae angen diweddarau ffeil y Cyngorydd Diogelu rhag Ymbelydredd er mwyn sicrhau bod yr holl wiriadau digidol yn gyfredol.	Rheoliadau Ymbelydredd Ioneiddio 2017	Bydd y practis yn adolygu ffeil y Cyngorydd Diogelu rhag Ymbelydredd (RPA) ac yn sicrhau bod yr holl wiriadau sicrhau ansawdd digidol, cofnodion a dogfennaeth gysylltiedig ofynnol yn gyfredol ac yn cael eu cadw'n gywir. Rhoddir proses ar waith i adolygu'r cofnodion diogelu rhag ymbelydredd yn rheolaidd er mwyn sicrhau bod y ddogfennaeth yn parhau i fod yn gyfredol a'i bod yn cydymffurfio â'r canllawiau a'r gofynion rheoliadol perthnasol.	Rheolwr Practis Rheolwr Cofrestredig	O fewn 1 mis.
-----	--	---	---------------------------------------	---	---	---------------

12.	Cofnodion clinigol: Nid oedd dewis iaith cleifion yn cael ei ddogfennu'n rheolaidd. Rhaid i radiograffau gael eu cofnodi'n gyson yng nghofnodion cleifion gan bob clinigydd, yn unol â'r canllawiau a'r safonau proffesiynol cydnabyddedig	Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau bod pob clinigydd yn dogfennu'r holl wybodaeth yng nghofnodion cleifion.	Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017	Bydd y practis yn atgoffa pob clinigydd am y gofynion ar gyfer cadw cofnodion er mwyn sicrhau bod cofnodion cleifion yn cael eu cwblhau'n gyson ac yn unol â'r canllawiau a'r safonau proffesiynol cydnabyddedig. Bydd hyn yn cynnwys dogfennu dewis iaith cleifion lle y bo'n briodol a sicrhau bod pob radiograff yn cael ei gyfiawnhau a'i gofnodi'n briodol yn y nodiadau clinigol. Bydd archwiliadau o gofnodion clinigol yn parhau i gael eu cynnal er mwyn monitro cydymffurfiaeth a nodi unrhyw feysydd lle mae angen gwneud gwelliannau pellach.	Rheolwr Practis Rheolwr Cofrestredig	1 mis.
-----	---	--	--	---	---	---------------

13.	Nid oedd sawl polisi yn cynnwys digon o fanylion, gan gynnwys dyddiadau adolygu clir a phrosesau rheoli fersiynau, ac nid oeddent wedi'u teilwra'n benodol at y practis.	Adolygu'r holl bolisiâu presennol a sicrhau eu bod wedi'u teilwra at y practis. e.e. lechyd a Diogelwch, Atal a Rheoli Heintiau. Mae angen ymarferwyr dynodedig i arwain y broses ar gyfer rhai ohonynt, a rhaid i hyn gael ei gynnwys yn y polisi	Rheoliad Deintyddiaeth Breifat 20 (l)(a)(i) a (ii)	Bydd y practis yn cynnal adolygiad cynhwysfawr o'r holl bolisiâu a gweithdrefnau er mwyn sicrhau eu bod yn benodol i'r practis, yn adlewyrchu'r trefniadau gwaith presennol yn gywir ac yn cydymffurfio â'r ddeddfwriaeth, y canllawiau a'r safonau proffesiynol perthnasol. Caiff yr holl bolisiâu eu hadolygu er mwyn sicrhau eu bod yn cynnwys prosesau rheoli fersiynau priodol, dyddiadau adolygu, arweinwyr dynodedig lle bo angen, a rolau a chyfrifoldebau clir. Caiff amserlen adolygu polisiâu ei chadw i sicrhau bod proses fonitro barhaus ar waith a bod y dogfennau'n parhau i	Rheolwr Practis Rheolwr Cofrestredig	1-3 mis ar gyfer lechyd a Diogelwch Atal a Rheoli Heintiau Ymbelydredd Diogelu Cwynion Offer miniog Dihalogi 6 mis ar gyfer y gweddill.
-----	--	--	--	--	---	---

				fod yn gyfredol ac yn berthnasol i'r practis.		
--	--	--	--	--	--	--

14.	Nid yw un aelod o'r staff wedi bodloni'r holl ofynion o ran hyfforddiant gorfodol.	Mae angen i bob aelod o'r staff gwblhau'r hyfforddiant gorfodol gofynnol. • Ocsigen BOC • Atal a Rheoli Heintiau • Diogelu • Adfywio Cardiopwlmonaidd • IR(ME) R • Tân	Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017	Mae'r practis wedi adolygu cofnodion hyfforddiant y staff ac wedi nodi gofynion y mae angen eu bodloni o ran hyfforddiant gorfodol mewn perthynas â Pherchennog y Practis. Caiff y gofynion dan sylw, gan gynnwys hyfforddiant ar Ocsigen BOC, Atal a Rheoli Heintiau, Diogelu, CPR, IR(ME)R a Diogelwch Tân, eu hadolygu a'u diweddarau fel y bo'n briodol. Bydd y practis yn parhau i gadw a monitro matrices hyfforddiant er mwyn sicrhau bod gofynion o ran hyfforddiant gorfodol yn cael eu nodi, eu cofnodi a'u bodloni o fewn yr amserlenni gofynnol ar	Rheolwr Practis Rheolwr Cofrestredig	O fewn 3 mis ar ôl i berchennog y practis ddychwelyd i'r gwaith.
-----	---	--	--	--	---	---

				gyfer pob aelod o'r staff.		
--	--	--	--	----------------------------	--	--

Rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd o'r gwasanaeth sydd â chyfrifoldeb ac atebolrwydd cyffredinol am sicrhau bod y cynllun gwella yn cael ei roi ar waith.

Cynrychiolydd y gwasanaeth: Kayleigh Hancox

Enw (priflythrennau): Kayleigh Hancox

Swydd: Rheolwr y Practis

Dyddiad: 15/06/26